Cystadleuaeth Sgiliau Cymru
Skills Competition Wales

# Competition Brief

## Competition Title

Health and Social Care

## Competition Overview

Health and Social Care workers provide quality care to individuals in a range of facilities, such as a residential home, hospital, or other caring establishments. The nature of their work requires them to have knowledge and skills covering person-centered care, health and safety and policy and procedures, elements of sociology, biology, nutrition, law, and ethics.

In this competition, competitors will be expected to exercise judgment and take appropriate action to support individuals to maintain their independence, dignity and control through a variety of practical exercises. The competition will consist of four activities over 1 hour and 30 minutes.

Live competition heats will be held at various venues across Wales.

## Entry Criteria

The competition is for those training for a career in Health & Social Care and studying towards a Level 3 qualification or studying a Level 2. Please ensure your entrants have the skills and competencies to complete the tasks.

## Entry capacity restrictions by organisation

Maximum of up to **2 per location**. **Reserves** may also be registered to account for potential absences or withdrawals.

This is the maximum number of entries permitted by an organisation for this competition. This is determined by 'location' and 'organisation'. 'Organisation' refers to the competitors' training provider/employer. 'Location' refers to a site where the competitor studies/is employed.

This competition may be subject to a selection process if competitor registration numbers exceed the host venue capacity. Where capacity is identified in a competition the reserve

competitors may be invited to compete. The decision will be made following a consultation between Skills Competition Wales and the competition lead after registration closes. All parties will be notified of any changes.

For further guidance on these capacities, click here.

## Brief

Competitors will have a 10 minute introduction to the environment to ask questions; then a further 1 hour and 15 minutes to complete all four activities which should include dimensions of equality, diversity and Welsh language. All tasks can be completed in the medium of Welsh or English.

**Activity 1: Person-Centered Care Role-Play**

Individual role-play activity: up to 15 minutes.

You are a domiciliary care support worker who has additional training to be able to undertake basic health checks. The individual who usually visits Alex every morning is off sick, so you have been asked to cover for them. Alex is 75 years old and she lost her husband just over 2 years ago, having been married for 52 years. She misses him dreadfully and often says she feels lonely.

Alex lives in a small bungalow, in a town where she and her husband lived all their lives. Alex enjoys spending time in the garden, knitting, crocheting and watching quiz shows on TV. Her son and his wife visit Alex most weekends and she really looks forward to seeing them. She also has two grandchildren and two great grandchildren but they live away so she does not see them as much as she would like to.

Alex was diagnosed with vascular dementia a few months ago, after her son became concerned about her mixing up household tasks, for example, finding the shopping in the oven. Alex also takes medication for angina and diabetes and has recently forgotten to do this on some days. She also often eats the wrong food which affects her diabetes and her weight is being carefully monitored.

Alex is expecting her usual care worker to carry out routine observations today, including her pulse, blood pressure, temperature, height, weight and BMI measurements. It is important that these observations are undertaken when she is expecting them to, and you will need to do this whilst at the same time reassuring Alex who often gets anxious.You will be judged on your ability to communicate, build a good rapport with Alex, and your ability to interact with her in a friendly and calming manner. You will also be judged on use of equipment to take accurate observation readings and recordings. If you are working through the medium of English, make use of incidental Welsh during this activity.

You will be provided with a more detailed care plan 10 minutes before the time you begin your task. Please read this carefully.

**Activity 2: Reflection and Evaluation of Activity 1**
De-brief task (up to 10 minutes).

Based on activity 1, there will be a Q&A reflection and evaluation session with the judging panel following the activity. The judges will ask you 5 questions relating to the activity and will write down your responses. Please answer as fully as possible.

**Activity 3: Multiple Choice Questionnaire plus one extended answer**
Individual task: up to 30 minutes.

This activity is a series of 30 multiple-choice questions on a range of topics in Health and Social Care for the entrants to complete. There is also one question that requires an extended answer.

**Activity 4: Health Emergency**
Individual task: up to 20 minutes.

You are a healthcare support worker supporting an individual on your daily visit. You will need to ensure PPE (Gloves and Apron) are put on when you enter the room.

When you arrive you find the individual on the floor conscious but in obvious distress. You will need to assess the situation and consider the best course of action to ensure their health and well being needs. As you enter the room the service user is displaying symptoms of a stroke. You need to assess the situation and administer any basic first aid you believe to be necessary. You need to make sure that the service user is made comfortable, bearing in mind your personal medical knowledge and limitations.

You will be judged on your ability to communicate, build a good rapport with the service user, and your ability to interact in a friendly and calming manner. You will also be judged on accurate observation readings and recordings. If you are working through the medium of English, make use of incidental Welsh during this activity.

You will be provided with a more detailed care plan 10 minutes before the time you begin your task. Please read this carefully.

Previous competition briefs are available to view and download via the Skills Competition Wales website, please click here to access.

## Infrastructure List

Resources and all equipment will be available at the venue.

## Competition Rules

For full terms and conditions of entry and competition rules visit.

**Competition specific rules:**

Those wishing to enter this competition should be:

- Dress should be professional and adhere to relevant professional standards. Attire must be non-branded (i.e. no college/employer logos visible).
- All activities must be completed by competitors within the allotted time.

**Generic competition rules:**

- Mobile phones are to be switched off during competition activity.
- Listening to music via headphones is not permitted during competition activity.
- Any questions during the competition activity should be addressed to the competition judging panel.
- Competitors should not communicate with other competitors during competition activity.
- It is the responsibility of each competitor to arrive on time for each competition session. No additional time will be allowed if you arrive late.
- Technical failure of your equipment should be reported immediately to the judging panel. Additional time will be allocated if the fault is beyond the control of the competitor.

## Marking and Assessment

Marking and judging of this competition will be done by a team of experts from Industry, Further Education or Training Provider, using a marking criteria and allocated marks to ensure consistency.

Brief breakdown of marking and assessment:

| Activity | Description | Marks awarded |
|---|---|---|
| Activity 1: Role play | Communicate skills, rapport, manner and interaction. Use of equipment and accurate recordings. | 37% |
| Activity 1: Welsh Language | Use of Incidental Welsh within the role play. | 3% |
| Activity 2: Reflection and evaluation | 5 questions relating to the activity . | 5% |

| | | |
|---|---|---|
| Activity 3: Questionnaire | 30 Multi-Choice Questions with one extended answer required | 15% |
| Activity 4: Health Emergency | Communicate skills, rapport, manner and interaction. Use of equipment and accurate recordings. | 37% |
| Activity 4: Welsh Language | Use of Incidental Welsh within the health emergency. | 3% |
| | **Total** | **100%** |

## Feedback and Recognition:

Individual and Group verbal feedback will be provided at the end of the competition. No results or awards will be awarded on the day as marking will be quality assured.

All competitors will be issued with a Participation Certificate on the competition day. First, second, third and highly commended awards will be announced during the celebration event. The highly commended award recognises all competitors who have achieved above average. The celebration event will be held on Thursday 18th March 2027, further details will be communicated to competitors and their points of contact by email.

Marksheets will be available upon request via info@skillscompetitionwales.ac.uk to competitors after the celebration event.

## Competition Lead

**Lead Contact:**

Emily Rees
Emily.Rees@Colegsirgar.ac.uk

## Our partners

This competition is delivered in partnership with

colegsirgâr
colegceredigion

# Briff y Gystadleuaeth

## Teitl y Gystadleuaeth

Iechyd a Gofal Cymdeithasol

## Trosolwg o'r Gystadleuaeth

Mae gweithwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn darparu gofal safonol i unigolion mewn amrywiaeth o gyfleusterau, megis cartrefi preswyl, ysbytai, neu sefydliadau gofal eraill. Mae natur y gwaith yn gofyn i'r unigolyn fod yn wybodus a bod â sgiliau sy'n cwmpasu o amgylch gofal yr unigolyn, iechyd a diogelwch a pholisi a gweithdrefnau, elfennau o gymdeithaseg, bioleg, maetheg, y gyfraith a moeseg.

Yn y gystadleuaeth hon, bydd disgwyl i gystadleuwyr ddefnyddio barn ei hunain a chymryd camau priodol i gefnogi unigolion i gynnal eu hannibyniaeth, eu hurddas a'u rheolaeth dros amryw o weithgareddau ymarferol. Bydd y gystadleuaeth yn cynnwys pedwar gweithgaredd dros 1 awr a 30 munud

Cynhelir rowndiau rhagbrofol byw mewn sawl lleoliad ledled Cymru.

## Meini Prawf Cystadlu

Mae'r gystadleuaeth ar gyfer y rhai sy'n hyfforddi ar gyfer gyrfa ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac sy'n astudio tuag at gymhwyster Lefel 3 neu'n astudio Lefel 2. Sicrhewch fod gan eich ymgeiswyr y sgiliau a'r cymwyseddau i gwblhau'r dasg.

## Cyfyngiadau capasiti mynediad fesul sefydliad

Uchafswm o hyd at **2 o bob lleoliad**. Gellir cofrestru **cronfeydd wrth gefn** hefyd i gyfrifon absenoldeb neu dynnu'n ôl os bydd angen

Dyma uchafswm y nifer o geisiadau a ganiateir o un sefydliad ar gyfer y gystadleuaeth hon. Caiff hyn ei benderfynu ar sail 'lleoliad' a 'sefydliad'. Mae'r 'sefydliad' yn cyfeirio at ddarparwr hyfforddiant/cyflogwr y cystadleuwyr. Mae'r 'lleoliad' yn cyfeirio at safle ble mae'r cystadleuydd yn astudio / cael ei gyflogi.

Gall y gystadleuaeth hon fod yn destun proses ddethol os yw'r niferoedd cofrestru cystadleuwyr yn fwy na chapasiti'r lleoliad cynnal. Lle nodir bod capasiti ar gyfer y gystadleuaeth, gellir gwahodd cystadleuwyr wrth gefn i gystadlu. Bydd y penderfyniad yn cael ei wneud yn dilyn ymgynghoriad rhwng Cystadleuaeth Sgiliau Cymru ac arweinydd y gystadleuaeth ar ôl i'r cofrestru gau. Bydd pob parti yn cael gwybod am unrhyw newidiadau.

I gael rhagor o arweiniad ar y capasiti hyn, cliciwch yma.

## Briff

Bydd cystadleuwyr yn cael cyflwyniad 10 munud i'r amgylchedd i ofyn cwestiynau; yna 1 awr a 15 munud arall i gwblhau'r pedwar gweithgaredd a ddylai gynnwys dimensiynau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a'r Iaith Gymraeg. Gellir cwblhau'r holl dasgau yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

**Gweithgaredd 1: Chwarae Rôl Gofal sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn**
Gweithgaredd chwarae rôl unigol: hyd at 15 munud

Rydych yn weithiwr cymorth gofal cartref sydd â hyfforddiant ychwanegol i allu cynnal archwiliadau iechyd sylfaenol.  Mae'r unigolyn sydd fel arfer yn ymweld Alex yn sâl o'r gwaith bob bore, felly gofynnwyd i chi weithio yn ei lle. Mae Alex yn 75 oed a chollodd ei gŵr ychydig dros 2 flynedd yn ôl, ar ôl bod yn briod am 52 mlynedd. Mae ganddi hiraeth mawr amdano ac mae hi'n dweud yn aml ei bod hi'n teimlo'n unig.

Mae Alex yn byw mewn bynglo bach mewn tref lle bu hi a'i gŵr yn byw ar hyd eu hoes. Mae Alex yn mwynhau treulio amser yn yr ardd, gwau, crosio a gwylio rhaglenni cwis ar y teledu. Mae ei mab a'i wraig yn ymweld ag Alex bron pob penwythnos ac mae hi'n edrych ymlaen yn fawr at eu gweld. Mae ganddi ddau ŵyr a dau or-ŵyr hefyd ond maent yn byw i ffwrdd felly nid yw hi'n eu gweld mor aml ag yr hoffai.

Cafodd Alex ddiagnosis o ddementia fasgwlar ychydig fisoedd yn ôl, ar ôl i'w mab ddechrau pryderu ei bod hi'n drysu wrth wneud tasgau syml yn y cartref, er enghraifft, daeth o hyd i'w neges yn y ffwrn. Mae Alex hefyd yn cymryd meddyginiaeth ar gyfer angina a diabetes ac yn ddiweddar bu'n anghofio eu cymryd. Yn aml mae hi hefyd yn bwyta'r bwyd anghywir sy'n effeithio ar ei diabetes ac mae ei phwysau'n cael ei fonitro'n ofalus.

Cafodd Alex ddiagnosis o ddementia fasgwlar ychydig fisoedd yn ôl, ar ôl i'w mab ddechrau pryderu ei bod hi'n drysu wrth wneud tasgau syml yn y cartref, er enghraifft, daeth o hyd i'w neges yn y ffwrn. Mae Alex hefyd yn cymryd meddyginiaeth ar gyfer angina a diabetes ac yn ddiweddar bu'n anghofio eu cymryd. Yn aml mae hi hefyd yn bwyta'r bwyd anghywir sy'n effeithio ar ei diabetes ac mae ei phwysau'n cael ei fonitro'n ofalus.

Byddwch yn cael eich barnu yn ôl eich gallu i gyfathrebu, meithrin perthynas dda ag Alex, a'ch gallu i ryngweithio â hi mewn modd cyfeillgar a digynnwrf. Byddwch hefyd yn cael eich barnu ar ddefnyddio offer i gymryd darlleniadau arsylwi a mesuriadau cywir. Os ydych chi'n gweithio drwy gyfrwng y Saesneg, defnyddiwch Gymraeg yn achlysurol yn ystod y gweithgaredd hwn.

Byddwch yn cael cynllun gofal manylach 10 munud cyn dechrau'r dasg. Darllenwch hwn yn ofalus.

**Gweithgaredd 2: Myfyrio a Gwerthuso ar Weithgaredd 1**
Tasg unigol (hyd at 10 munud)

Yn seiliedig ar weithgaredd 1, bydd sesiwn myfyrio a gwerthuso holi ac ateb gyda'r panel beirniadu yn dilyn y gweithgaredd. Bydd y beirniaid yn gofyn 5 cwestiwn i chi yn ymwneud â'r gweithgaredd ac yn ysgrifennu eich ymatebion. Dylech ateb mor llawn ag y bo modd.

**Gweithgaredd 3: Holiadur Amlddewis ynghyd ag un ateb estynedig**
Tasg unigol: hyd at 30 munud

Bydd yr ymgeiswyr yn llenwi cyfres o 30 cwestiwn amlddewis yn y gweithgaredd hwn ar amryw o bynciau ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae yna hefyd un cwestiwn sy'n gofyn am ateb estynedig.

**Gweithgaredd 4: Argyfwng Iechyd**
Tasg unigol: hyd at 20 munud

Rydych chi'n weithiwr cymorth gofal iechyd sy'n cefnogi unigolyn ar eich ymweliad dyddiol. Bydd angen i chi sicrhau bod Cyfarpar Diogelu Personol (Menig a Ffedog) yn cael eu gwisgo pan fyddwch chi'n mynd i mewn i'r ystafell.

Wrth gyrraedd, rydych yn canfod yr unigolyn ar y llawr yn ymwybodol ond yn amlwg mewn trallod. Bydd angen i chi asesu'r sefyllfa ac ystyried y camau gorau i sicrhau eu hanghenion iechyd a llesiant. Wrth i chi fynd i mewn i'r ystafell mae'r defnyddiwr gwasanaeth yn dangos symptomau strôc. Mae angen i chi asesu'r sefyllfa a chynnal unrhyw gymorth cyntaf sylfaenol y credwch sy'n angenrheidio.Mae angen i chi sicrhau bod y defnyddiwr gwasanaeth yn gyfforddus, gan gadw mewn cof eich gwybodaeth a'ch cyfyngiadau meddygol personol.

Byddwch yn cael eich barnu yn ôl eich gallu i gyfathrebu, meithrin perthynas dda â’r defnyddiwr gwasanaeth, a'ch gallu i ryngweithio mewn modd cyfeillgar a digynnwrf. Byddwch

hefyd yn cael eich barnu ar gymryd darlleniadau arsylwi a mesuriadau cywir. Os ydych chi'n gweithio drwy gyfrwng y Saesneg, defnyddiwch Gymraeg yn achlysurol yn ystod y gweithgaredd hwn.

Byddwch yn cael cynllun gofal manylach 10 munud cyn dechrau'r dasg. Darllenwch hwn yn ofalus.

Mae briffiau cystadleuaeth flaenorol ar gael i'w gweld a'u llwytho o'r wefan Cystadleuaeth Sgiliau Cymru, cliciwch yma i gael mynediad iddynt.

## Rhestr Seilwaith

Adnoddau, offer ar gael yn y lleoliad.

## Rheolau'r Gystadleuaeth

Am yr holl delerau ac amodau ynghylch ymgeisio a rheolau cystadlu ewch i.

**Rheolau sy'n benodol i'r gystadleuaeth:**

Dylai'r rhai sy'n dymuno cymryd rhan yn y gystadleuaeth hon fod:

- Wedi gwisgo yn broffesiynol ac yn cadw at safonau proffesiynol perthnasol. Rhaid i'r wisg fod yn ddi-frand (h.y. dim logos coleg/cyflogwr yn weladwy).
- Rhaid i'r holl weithgareddau gael eu cwblhau gan gystadleuwyr o fewn yr amser penodedig.

**Rheolau cyffredinol y gystadleuaeth:**

Dylai ffonau symudol gael eu diffodd yn ystod gweithgareddau'r gystadleuaeth.

- Ni chaniateir gwrando ar gerddoriaeth drwy glustffonau yn ystod gweithgareddau'r gystadleuaeth.
- Dylai unrhyw gwestiynau yn ystod gweithgareddau'r gystadleuaeth gael ei gofyn i banel beirniadu'r gystadleuaeth.
- Ni ddylai cystadleuwyr gyfathrebu â chystadleuwyr eraill yn ystod gweithgareddau'r gystadleuaeth.
- Cyfrifoldeb unigol pob cystadleuydd yw cyrraedd ar amser ar gyfer pob sesiwn gystadlu. Ni chaniateir amser ychwanegol os byddwch yn cyrraedd yn hwyr.
- Dylai rhoi gwybod i'r panel beirniadu am fethiant technegol eich offer ar unwaith. Bydd amser ychwanegol yn cael ei neilltuo os yw'r nam y tu hwnt i reolaeth y cystadleuydd.

## Marcio ac Asesu

Bydd gwaith marcio a beirniadu'r gystadleuaeth hon yn cael ei wneud gan dîm o arbenigwyr o'r Diwydiant, o faes Addysg Bellach neu sy'n Ddarparwr Hyfforddiant, gan ddefnyddio meini prawf marcio a marciau wedi'u dyrannu o flaen llaw i sicrhau cysondeb.

Dadansoddiad byr o’r marcio a’r asesu.

| **Gweithgaredd** | **Disgrifiad** | **Marciau a ddyfarnwyd** |
|---|---|---|
| Gweithgaredd 1: Chwarae Rol | Sgiliau cyfathrebu, meithrin perthynas. Defnyddio offer a mesuriadau cywir. | 37% |
| Gweithgaredd 1: Chwarae Rol | Defnyddio Cymraeg Achlysurol o fewn y chwarae rôl. | 3% |
| Gweithgaredd 2: Reflection a gwerthuso | 5 cwestiwn yn ymwneud â'r gweithgaredd. | 5% |
| Gweithgaredd 3: Holiadur | 30 Cwestiwn Amlddewis ac angen un ateb estynedig | 15% |
| Gweithgaredd 4: Iechyd Argyfwng | Sgiliau cyfathrebu, meithrin perthynas, arddull a rhyngweithio. Defnydd o'r Gymraeg. Defnyddio offer a mesuriadau cywir. | 37% |
| Gweithgaredd 4: Iechyd Argyfwng | Defnyddio Cymraeg Achlysurol o fewn yr argyfwng iechyd | 3% |
| | **Cyfanswm** | **100%** |

## Adborth a Chydnabyddiaeth:

Darperir adborth llafar yn unigol ac mewn grŵp ar ddiwedd y gystadleuaeth. Ni fydd unrhyw ganlyniadau na gwobrau yn cael eu rhoi ar y diwrnod gan y bydd y marcio’n cynnwys elfen sicrwydd ansawdd.

Bydd pob cystadleuydd yn cael Tystysgrif Cyfranogi ar ddiwrnod y gystadleuaeth. Bydd gwobrau cyntaf, ail, trydydd a chanmoliaeth uchel yn cael eu cyhoeddi yn ystod y digwyddiad dathlu. Mae'r wobr canmoliaeth uchel yn cydnabod yr holl gystadleuwyr sydd wedi cyflawni sgôr uwch na'r cyfartaledd. Cynhelir y digwyddiad dathlu ar Dydd Iau 18 Mawrth 2027, bydd manylion pellach yn cael eu rhoi i gystadleuwyr a'u pwyntiau cyswllt trwy e-bost.

Bydd taflenni marciau ar gael ar gais drwy info@skillscompetitionwales.ac.uk i gystadleuwyr ar ôl y digwyddiad dathlu.

## Arweinydd y Gystadleuaeth

**Prif gyswllt:**

Emily Rees
Emily.Rees@Colegsirgar.ac.uk

© Cystadleuaeth Sgiliau Cymru 2027 – Skills Competition Wales 2027

## Ein partneriaid

Mae'r gystadleuaeth hon yn cael ei chyflwyno mewn partneriaeth â

colegsirgâr
colegceredigion

© Cystadleuaeth Sgiliau Cymru 2027 – Skills Competition Wales 2027